


Y Cw tsh Creadigol



**Cerddi Buddugol Eisteddfod
Ysgol 2019
(bl. 7, 8 a 9)**

Bae Caerdydd

Mae Bae Caerdydd yn ddiddorol a braf
Yn llawn ymwelwyr drwy gydol yr haf.

Y cychod crand sy'n arnofio'n dawel
A'r gwyllanod yn hedfan yn yr awyr uchel.

Techniquest sy'n llawn arbrofion technegol
Ond gyda'r holl blant, nid yw'n hamddenol.


Yn y caffi mae dyn anferth o seis
Yn stwffio ei wyneb gyda nifer o peis.

Hen wr sy'n sefyll yn pysgota'n brysur
A dyn ifanc yn eistedd wrth ei gyfrifiadur.

Agorodd y plant eu cegau heb ddweud gair
Wrth weld a chlywed prysurdeb y ffair.

Canolfan y Mileniwm sydd yn sgleinio
Wrth i enwogion Cymru berfformio.

Mae pawb yn mwynhau o dan yr awyr las
Yn y bae, yn ein prifddinas.




Blwyddyn 7

Erin Roderick 7-4



Y Bae



Blwyddyn 7

Tywydd braf bant a ni!
Lawr i'r bae ger y lli,
Does dim lle gwell i'w gael
Ymlacio yn yr haul.

Ydych chi'n barod?
Dewch i ware ar y tywod,
Cranc yn mentro galw heibio
Ar y traeth pawb yn joio!

Llyfi hufen iâ mor flasus,
Cwrso'r pêl a chynnal rasmus.
Het ac eli, bwced a rhaw,
Sefwch funed, oes na law?


Hwyllo, hwyllo lan a lawr,
Pysgod bach a physgod mawr.
Tôn uchel dros y bae
Well troi nôl tua 'thre.

Gan Iago Richards 7-2



Cymru

Iaith y Mabinogi
Iaith y Llyfr Du
Iaith Llywelyn a Glyndwr -
Ein hiaith hynafol ni.



Wrth siarad yn yr ysgol
A thecstio ar y ffôn,
Mae Saesneg ar dafodau'r plant
O Fynwy i Sir Fôn.

"Dyma iaith hen ffasiwn!
Dyma iaith y ffwl,
Mae'n rhaid i ni addasu nawr,
Mae Saesneg yn fwy cwl!"

Rwy'n ofni'n y dyfodol
Mai Saeson fyddwn ni
Os na fydd newid nawr cyn hir:
Mae yn ein dwylo ni.

Rwy'n ceisio anwybyddu
Eu Saesneg nhw o hyd,
Ond sut all llais diwerth fel fi
Berswadio'r lleill i gyd?

Rhaid dechrau ar yr aelwyd
A chasglu pawb yn llu,
Rhaid rhannu'n glir y neges hon:
Ein hiaith sy'n gwneud ni'n ni!

Iaith y Mabinogi
Iaith y Llyfr Du
Rwy'n gaddo nawr fe wnafe fy rhan
Bob dydd i'w gwarchod hi.

Blwyddyn 8



Cymru

I gofio am ddydd lau 21ain o Dachwedd 1965



Blwyddyn 8

Dydd lau diflas,
Dwi ishe bod mas,
Mas yn y caeau yn chwarae rygbi.
Dydd lau llwyd,
Dwi ishe bwyd,
Bwyd ffein fel cyri.

Ond yn sydyn, daw lluniau'r gorffennol
I foddi 'nheimpladau i,
Rhwing y du a'r gwyn ar y sgrin fawr o'm blaen
Mae plant, cymuned, cartrefi.

"Pwy sy'n gwybod yr hanes?"
Medd llais yr athrawes.
Tawelwch. Llwyd. Dim byd.
"Neb yn gwybod?" meddai'n syfrdan
pennau'n ysgwyd ym mhob man.
"Mi ddysga' i chi'r hanes i gyd."


Dwr. Digalon. Diddiwedd.
Lerpwl. Protestio. Digartref.
Cymuned yn torri,
Bywydau yn chwalu.
Dwi wedi drysu.
Ai dyma fy Nghymru?

Wrth gloi'r wers, daw llun arall i'n sylw,
"Cofiwch Dryweryn" yw'r geiriau hwnnw.
Byddaf yn cofio meddyliaf wrth bacio 'mag a chydio'n fy ffôn.
Rwy'n sgrolio drwy'r sgrin yn clicio a dewis...
Y bys bawd yn stopio. Beth yw hyn am Elvis?

Ai dyma fy Nghymru?
Dwi wedi drysu.
Mae'n ddydd lau diflas.
Dwi ishe bod mas.

Gilbert Roberts 7-4

Cymru



Dyma'r gân sy'n codi'r daffodil o'i phridd
Lle bu Llywelyn a'r llanciau yn ymladd s'lawer dydd.

Dyma'r gân lle tardd lif yr afon
A olchodd waed Llywelyn a'i ddynion.

Dyma'r gân sy'n dal y mynyddoedd,
A dyma'r gân sy'n gwneud Cymru'n nefoedd.

Dyma'r gân y bu'r cynfeirdd yn canu,
Y gân sy'n gwneud Cymru'n gartref i mi.

Er fod Llywelyn a'i lais yn fud,
Mae'r gân, er yn wan, yma o hyd.

Yr alaw sy'n fwrlwm, yn ddawns trwy fy ngwaed,
A'i rhythm yn fyw o'm calon i'm traed.

Martha Jones 7-4

Blwyddyn 8



Cymru.

Dyma lle mae ein gwreiddiau,
O fa'ma daw ein traddodiadau.


Dyma lle mae ein calon,
O dan ddylanwad ein gelynon.

Bu'r gelyn yma'n newid enwau,
Dod a stop i'n diwylliannau.
Boddi cartrefi a chwalu breuddwydion,
A defnyddio'n tir yn greulon.

Ond er hynny mae 'na welliannau,
Ysgolion dwyieithog a llywodraethau.
Plaid sy'n lleisio barnau,
Rhaglenni Cymraeg a gwefannau.

Ymladdwyr a gwladgarwyr sy'n llenwi'r
Genedl glos llawn talentau.
Dyma sy'n llenwi ein gwlad,
A'n calonnau.

Gan Gwenllïan Jones, 8-3



Blwyddyn 8



Cymru



Blwyddyn 8

Os edrychaf i'r gorwel mi welaf
Ein draig goch, ffyrnig yn araf
Yn gwylio'r wlad
Mewn archwiliad
I ddarganfod y cneifion gwaethaf.

Yn agosach i mi mae'r Eisteddfod,
Yn anffodus nid wyf yn adnabod
Y gân, y lleisiau,
Na'r hen acennau,
Ond braf yw gweld eu Cymreictod.

Pan edrychaf ar hanes y Cymry,
Gwelaf y Welsh Not yn anwybyddu
Ein hiaith, ein gwlad,
Ein harwyddocâd,
Pam oedd rhaid iddynt geisio amharu?

Ac yna mi welaf Dryweryn,
Pentrefwyr yn ceisio'i amddiffyn,
Mi welaf y plant
Ar y palmant
Yn gwylio'u plentyndod yn derfyn.

Clywaf siffrwd hamddenol ein natur ddiniwed,
Gwelaf goed, blodau a'r holl bryfed
Yn canu grwndi
Mewn harmoni
Dyma Gymru os edrychaf yn galed.

Cymru



Blwyddyn 8

Dewch draw i Gymru am hwyl a sbri,
Chewch chi ddim eich siomi, credwch chi fi.

Mae digonedd o lefydd gwych i'w cael
Ac un peth da, dyw'r bwyd ddim yn wael

Dewch draw i Gymru am hwyl a sbri,
Chewch chi ddim eich siomi, credwch chi fi.
Traethau, moroedd, ynysoedd bach hardd,
Ac un peth da, mae mwy nag un bard!

Dewch draw i Gymru am hwyl a sbri,
Chewch chi ddim eich siomi, credwch chi fi.
Mynyddoedd, dyffrynnoedd, cestyll di-ri,
Ac un peth da, mae pawb yn caaaaanu!

Dewch draw i Gymru am hwyl a sbri,
Chewch chi ddim eich siomi, credwch chi fi.
Chwaraewyr rygbi sydd byth yn wael,
Ond un broblem fach, s'dim haul i gael!

Andreas Richards 7-4



Bro


Wedi dringo i gopa Llangynnwr
'Rwyn teimlo fel taswn i'n fardd:
Oddi yno 'rwyn gweld Dyffryn Tywi
Yn edrych yn sobor o hardd.

Af weithiau i bentref Llansteffan,
A cherdded yn ymyl y dwr,
A meddwl mor brydferth yw'r cyfan -
Y tywod, y castell a'r twr,

'Rwyn hoff o fynd draw, fore Sadwrn,
I siopa yng nghanol y dre'.
Am farchnad Caerfyrddin dywedaf –
Nid oes unman yn debyg i'r lle.

Mae gen i gi bychan direidus,
Ac af ag ef weithiau am dro,
A theimlaf wrth gerdded y llwybrau –
Mor hoff wyf o harddwch fy mro.

Gwennan James 9-2



Blwyddyn 9



Bro



Blwyddyn 9

**Yn fy mro mae tref hynaf Cymru
Sydd yn ddyddiol, yn datblygu.
Cartref enwogion a'r dewin Myrddin
Rwy'n sôn wrth gwrs am dref Caerfyrddin.**

**Yn fy mro cestyll crand sy'n adfeilio
Lle bu tywysogion dewr yn preswyllo.
Trwy y dref llifa'r afon Tywi
Ar ei thaith i'r môr, yn llawn egni.**

**Yn fy mro ysgrifennwyd y Llyfr Du
Casgliad o gerddi sydd wedi goroesi.
Yn sôn am Daliesyn a'r brenin Arthur
Ac am ddigwyddiadau o'r ysgrythur.**


**Yn fy mro mae'r Mart wedi diflannu
Yn ei le, Debenhams a Costa Coffi.
Y Velodrome sydd wedi ei atgyweirio
I drigolion y dref ei aildefnyddio.**

**Yn fy mro mae Coleg y Drindod Dewi Sant
I addysgu myfyrwyr a chael adloniant.
Teledu S4C a ddaeth i'r Gorllewin
I greu rhaglenni ar safle'r Egin.**

Elis Roderick 9-2

S4C

Bro



Blwyddyn 9

Bob bore
pum niwrnod o'r wythnos,
ymgrymai lawer o blant
o bob cwr o'r sir.

I ddysgu
i ganu,
ac i ddeall am y byd
mewn adeilad mawr a chlyd.

Yma yw fy noddfa
yma caf wybodaeth,
yma yw fy nhyddyn
yma yw Bro Myrddin.

Rhodri Davidson 9-2



Ysgol Gyfun
BRO MYRDDIN

Bro

Cerddaf ar y cae yn araf,
syllaf ar yr awyr-mor braf,
haul yn disgleirio ar y cyntaf o Orffennaf,
dyma ein gem bwysig, olaf.

Gweld rhes o chwaraewyr fel milwyr,
yn edrych fel petai'n barod i ymladd,
dyma fois Bro Myrddin, yn agos fel brodyr,
ond y stadiwm yn dawel fel angladd.

Ar ochr arall y cae llydan,
gwelaf y bois mawr Bae Baglan,
i gymharu â rhain, edrychom fel babanod bychan,
ac mae'r dyfarnwr yn chwythu ei chwiban.

Cyn sylweddoli, mae'r bel yn dechrau symud,
a'r gwrthwynebwyr yn edrych yn llawn ysbryd,
mae'r ymosodwr tal yn cymryd ergyd,
a chyn i mi wybod, mae'n sgorio gôl hyfryd.

Ond cadwon ein pennau a cheisio sgorio gôl,
ry'n ni'n llwyddo i ennill y bel a chadw meddiant,
o Stwff i Frank i Steff i Ifan, mae'r pasio ddim yn ffôl,
ac i orffen, mae'n Oli'n sgorio i gydraddoli-dyna welliant.


Mae'n hanner amser a'r sgôr yn un yr un,
a'r chwaraewyr yn cael ysbrydoliaeth gan ein hathro,
pawb gyda'i gilydd, pawb yn gytûn,
yn dychwelyd i'r cae gan ruthro.

Dim ond dau funud i fynd a phawb yn dechrau gofidio,
ond mae Bro yn trial pwylllo,
y bel yn saethu mewn i'r bocs tuag at Ben,
ac mae'n ceisio sgorio'n defnyddio'r pen.

Yn anffodus, mae'n misio,
ond cadwon ni ein pasio,
at Ben mae'r bel yn syrthio,
gol hawdd i'w sgorio yn sicr. Ond na mae'n misio. ETO!

Collon y gêm, 2-1 gyda gôl iddyn nhw'r eiliad olaf,
safodd Bro mewn cylch wedi uno, er y gwaethaf,
cymysgedd o deimladau, llawer drwg ond rhai da,
ond dysgodd Bro wers bwysig y dydd hwnnw, cadwch Ben ar y fainc, nid ar y ca'!

Griff James 9-1



Blwyddyn 9

